Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Chwilog

**Chwilog**
**Pwllheli**
**Gwynedd**
**LL53 6PS**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Chwilog

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Chwilog |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 67 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 47 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 14 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%) | 1.8% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysg arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector cynradd yw 20.6%) | 12.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 87.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Medi 2018 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 15/01/2013 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

[Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Chwilog yn ysgol hapus a chartrefol. Mae’r holl staff yn cydweithio’n llwyddiannus wrth greu ethos teuluol, cyfeillgar a Chymreig. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn mwynhau mynychu’r ysgol yn fawr iawn. Mae’r modd y mae’r staff yn hyrwyddo diwylliant, iaith a threftadaeth Cymru yn gryfder sylweddol ar draws yr ysgol.

Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn ardderchog. Maent yn ysgwyddo cyfrifoldeb am eu hymddygiad ac yn ymwybodol o ddisgwyliadau uchel oedolion. Maent yn ofalgar o'u cyfoedion, yn barchus tuag at oedolion, ac yn gwrtais i ymwelwyr, boed hynny mewn gwersi neu yn ystod amser egwyl. Mae disgyblion yn defnyddio’r Gymraeg yn hynod effeithiol gan sgwrsio’n gwbl naturiol mewn ystod ddiddorol o gyd-destunau dysgu. Maent yn sgwrsio’n fyrlymus a naturiol gyda’i gilydd, staff ac ymwelwyr ac yn dangos balchder cynhenid wrth siarad Cymraeg. Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gryfder yn yr ysgol, ac o ganlyniad, maent yn datblygu i fod yn ddysgwyr creadigol sy’n cyfleu eu hunain yn gynyddol hyderus.

Mae’r ysgol yn cael ei gweinyddu’n effeithiol gan dîm rheoli sydd yn adnabod yr agweddau pwysig sydd angen eu gwella, ynghyd â’r camau angenrheidiol ar gyfer gweithredu. Mae gweithgareddau monitro a gwerthuso’r ysgol yn graff ac yn gywir. Mae’r pennaeth yn rhannu ei weledigaeth, sef ‘gwreiddiau cryf, canghennau uchel’, yn glir â phawb ac mae cymuned yr ysgol yn gweithio’n ddiwyd i’w gwireddu. Mae’r corff llywodraethol yn gefnogol i’r ysgol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w gwella. Fodd bynnag, mae rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol yn gyfyngedig.

Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau effeithiol sydd yn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Un o nodweddion mwyaf effeithiol y ddarpariaeth yw bod athrawon yn teilwra'r gweithgareddau dysgu i fanteisio ar gyfleoedd ysgogol i herio’r disgyblion i lwyddo. Mae’r profiadau dysgu yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau mewn cyd-destunau dysgu go iawn. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y meysydd dysgu.

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau TGCh ar draws y meysydd dysgu

A2 Datblygu rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion y medrau sy'n ddisgwyliedig yn unol â'u hoed a'u gallu. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, maent yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau o'u mannau cychwyn ac yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau yn llwyddiannus. Maent yn adalw gwybodaeth i gof yn chwim ac yn rhyngweithio'n effeithiol â'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos mwynhad pur yn eu gwaith ac yn ymgolli'n llwyr yn eu dysgu.

Un o rinweddau cryfaf yr ysgol yw bod bron bob disgybl yn datblygu eu medrau llafar Cymraeg yn hynod effeithiol gan sgwrsio'n gwbl huawdl mewn ystod ddiddorol o gyd-destunau dysgu. Maent yn sgwrsio'n fyrlymus a naturiol gyda'i gilydd, staff ac ymwelwyr ac yn dangos balchder cynhenid wrth siarad Cymraeg. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn trafod nodweddion gwenyn yn fedrus ac yn datgan bod gan wenyn "bigyn pigog fel drain." Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn ymestyn eu geirfa'n fedrus wrth drafod bywyd gwyllt ar dir yr ysgol. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae ganddynt afael dda ar batrymau iaith ac yn cymhwyso'r Gymraeg yn effeithiol wrth drafod pynciau a chyflwyno gwybodaeth. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn trafod sefydlu'r gwasanaeth iechyd gwladol ac yn cyflwyno gwybodaeth am Aneurin Bevan yn hyderus. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol, gan drafod eu gwaith yn gwbl hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn defnyddio geirfa yn hyderus yn y ddwy iaith yn gwbl naturiol ac yn datblygu eu medrau trafod a chyflwyno gwybodaeth yn hynod ddeallus.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae disgyblion y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1 yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu dealltwriaeth o seiniau llythrennau ac yn dechrau defnyddio dulliau darllen yn dda, er enghraifft wrth iddynt ddarllen cyfarwyddiadau ar sut i wneud cacennau. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn hyderus wrth ddarllen ystod heriol o destunau dysgu ac yn trafod y cynnwys yn gynyddol hyderus wrth ddefnyddio geirfa goeth. Mae disgyblion hynaf yr ysgol yn adeiladu ar eu medrau yn gadarn, er enghraifft wrth iddynt ddefnyddio geirfa ymestynnol fel 'ffagl' a 'sleifio' wrth drafod a gwerthfawrogi chwedl Cantre'r Gwaelod. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hynaf yr ysgol yn datblygu eu medrau darllen yn hynod effeithiol ac yn defnyddio eu gwybodaeth am y Gymraeg a'r Saesneg yn fedrus, er enghraifft wrth ddarllen a dadansoddi testunau aml-gyfrwng fel rhan o'u gwaith ar adar sydd yn mudo.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus. Mae'r disgyblion ieuengaf yn creu marciau wrth labelu nodweddion adar yn hyderus. Mae medrau bron bob disgybl yn datblygu'n hynod effeithiol erbyn diwedd Blwyddyn 2, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr at fôr-leidr. Maent yn defnyddio ystod ddiddorol o ansoddeiriau ac yn cyfoethogi creadigrwydd eu gwaith wrth ddefnyddio idiomau a chymariaethau gwreiddiol. Mae safon medrau ysgrifennu y disgyblion ieuengaf yn gryfder ac mae'r sylfaen gadarn hon yn rhoi'r hyder i ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn llwyddiannus wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn defnyddio geiriau'n effeithiol wrth greu cerdd am Owain Glyndŵr. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu'n

hyderus ar draws y meysydd dysgu ac yn defnyddio’r Gymraeg a’r Saesneg yn fedrus. Er enghraifft, mae’r disgyblion hynaf yn defnyddio iaith yn greadigol wrth ysgrifennu sgript deledu yn dilyn ymweliad â swyddogion y cwch achub i’r ysgol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos parch at eu gwaith wrth ei gyflwyno’n daclus.

Mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gyson dda. Mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu eu dealltwriaeth o werth digidau rhwng 0 - 20 yn effeithiol, er enghraifft wrth iddynt gyfrif ac adio  nifer y coesau sydd gan drychfilod gwahanol yn y dosbarth tu allan. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn hyderus i gymhwyso’u dealltwriaeth drwy ddatrys problemau, er enghraifft wrth fesur cynhwysedd dŵr i'r 50ml agosaf er mwyn creu cynefin i drychfilod yn y pwll bywyd gwyllt. Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf yn defnyddio dysgu blaenorol yn fedrus. Er enghraifft, maent yn datrys problemau ymarferol wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o gyfesurynnau ymhellach wrth gynllunio eu taith i Ynys Llanddwyn. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn hyderus i gydweithio i ddefnyddio’r ystod o fedrau rhifedd er mwyn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau heriol. Er enghraifft, maent yn cyfrifo'r cyflenwad trydan angenrheidiol i bweru fflach lamp sydd wedi ei greu ganddynt yn llwyddiannus.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau TGCh. Mae disgyblion y dosbarth derbyn yn datblygu eu medrau digidol yn effeithiol wrth fwydo cyfarwyddiadau i declyn rhaglenadwy fel rhan o'u gwaith ar  stori Elen Benfelen. Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn gwneud cynnydd perthnasol wrth gasglu gwybodaeth am drychfilod gan ddefnyddio meddalwedd i osod ffeithiau mewn pictogram. Mae disgyblion hynaf yr ysgol yn defnyddio ystod o feddalwedd i gyflwyno gwaith ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth greu cyflwyniad am ifaciwi yn ystod thema yr Ail Ryfel Byd. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn cymhwyso eu medrau digidol yn briodol, er enghraifft wrth iddynt fwydo data i daenlen wrth gofnodi curiad calon eu cyfoedion fel rhan o'u gwaith ar gadw'n heini. At ei gilydd, mae medrau TGCh disgyblion yn datblygu'n addas. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn defnyddio eu medrau TGCh yn ddigon rheolaidd ar draws ystod o weithgareddau dysgu.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Fel rhan o'r ddarpariaeth 'Plant Prysur' yn y dosbarth tu allan, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn tylino toes yn grefftus wrth ail-greu gwennol. Mae'r disgyblion hŷn yn cyfansoddi rap Saesneg wrth ddwysàu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd ailgylchu ac yn ei gyflwyno’n frwdfrydig. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol trwy ymgymryd â gwaith celf yn fedrus, er enghraifft wrth newid ac addasu tôn pensil i greu effaith wrth gydweithio ag artist lleol. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr creadigol sydd yn cyfleu eu hunain yn gynyddol hyderus.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn dangos balchder at fod yn aelod o deulu clòs yr ysgol ac maent yn mwynhau’r  profiadau dysgu cyfoethog sydd yn eu cefnogi i ddysgu. Un o gryfderau yr ysgol yw’r modd mae disgyblion yn dangos parch a chwrteisi at ei gilydd, at oedolion ac at ymwelwyr.

Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn ardderchog. Maent yn ysgwyddo cyfrifoldeb am eu hymddygiad ar bob achlysur yn ystod y diwrnod, ac yn ymwybodol o ddisgwyliadau uchel oedolion. Maent yn ofalgar o'u cyfoedion, yn barchus at oedolion, ac yn gwrtais i ymwelwyr, boed hynny mewn gwersi neu yn ystod amser egwyl.

Mae disgyblion yn teimlo'n  ddiogel ac  iach yn yr ysgol, ac yn gwybod at bwy i droi petai ganddynt unrhyw bryderon. Maent yn gwybod sut i gadw'n iach a pha gamau sydd angen eu dilyn er mwyn cadw'n ddiogel ar-lein, er enghraifft defnyddio ffugenw cadarn wrth gyfathrebu'n ddigidol.

Un o rinweddau amlycaf y disgyblion yw'r modd maent yn ymroi'n gwbl fyrlymus i'w dysgu gan egluro'u canfyddiadau'n effeithiol, er enghraifft wrth esbonio effaith gorddefnydd o blastig.

Mae bron bob disgybl yn defnyddio ystod o ddulliau dysgu yn hyderus a llwyddiannus wrth ganfod atebion i gwestiynau, ac i ddatrys problemau amrywiol. Maent yn datblygu eu medrau i weithio yn annibynnol, fel pâr neu fel aelod o grŵp yn effeithiol wrth ddyfalbarhau ar dasgau. Maent yn dangos hyder wrth ymateb i arbenigwyr sydd yn ymweld â'r ysgol, er enghraifft wrth i nyrs yr ysgol gyflwyno gwybodaeth berthnasol am dreuliad bwyd yn y coluddyn.

Mae bron bob disgybl yn cyfrannu at weithgareddau ar ddechrau thema drwy gynnig awgrymiadau creadigol fel trywydd ymholi posib, er enghraifft astudio cynefin i wenoliaid sydd wedi nythu ar dir yr ysgol yn ddiweddar. Maent yn ymfalchïo yn eu gwaith, boed hynny ar lafar mewn llyfr neu yn ddigidol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd a deallusrwydd wrth adalw dysgu blaenorol, er enghraifft wrth esbonio'n  drwyadl sut maent yn datblygu eu medrau digidol wrth gydweithio â phartner i greu a pherfformio sgript Cantre'r Gwaelod.

Mae gan bron bob disgybl fedrau corfforol sydd yn briodol i'w hoedran. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn nerthol wrth ddefnyddio'r cwrs antur sydd ar gae'r ysgol. Mae hyn yn datblygu diddordeb y disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol rheolaidd.

Mae gan bron bob disgybl ymwybyddiaeth dda o'r angen i warchod y blaned, er enghraifft drwy weithgareddau a thrafodaethau am gynhadledd fyd eang amgylcheddol. Maent yn dylunio ardaloedd yn yr ardd a phlannu gwrychoedd er mwyn creu cynefinoedd addas i drychfilod gan ddefnyddio ac ailgylchu geriach yn effeithiol.

Mae'r disgyblion hynny sydd wedi eu hethol i gynrychioli eu cyfoedion ar gynghorau'r ysgol yn ysgwyddo cyfrifoldeb gydag awch a brwdfrydedd. Maent yn rhoi cyfle a gwrandawiad i ddisgyblion eraill fynegi barn am ddatblygiadau ysgol gyfan ac yn gweithio gyda gwydnwch i lywio'r ddarpariaeth, er enghraifft wrth ddylunio arwydd newydd i'r fynedfa i'r ysgol.

Yn dilyn y pandemig, nid yw arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod y flwyddyn academaidd 2021-2022. Yn hytrach, adroddir ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o Faes Arolygu 4.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae holl staff yr ysgol rhannu’r un weledigaeth sydd â ffocws clir ar ddarparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu i’r disgyblion. Trwy’r weledigaeth hon, mae’r staff yn ennyn a chynnal diddordebau disgyblion ac yn diwallu eu hanghenion yn fedrus. Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau sydd yn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Un o nodweddion mwyaf effeithiol y ddarpariaeth yw bod athrawon yn teilwra'r gweithgareddau dysgu yn grefftus ac yn manteisio ar gyfleoedd ysgogol i herio’r disgyblion i lwyddo. Er enghraifft, mae athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd a chreadigol yn hynod effeithiol wrth gynllunio tyrbinau gwynt fel rhan o’u gwaith ar greu ynni adnewyddol. O ganlyniad, mae’r profiadau dysgu hyn yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau yn adeiladol mewn cyd-destunau dysgu go iawn. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau TGCh ar draws y meysydd dysgu.

At ei gilydd, mae’r cwricwlwm yn adeiladu’n systematig ac yn gydlynol ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion er mwyn sicrhau dilyniant wrth iddynt symud drwy’r ysgol. Mae hyn yn darparu sylfaen gadarn wrth i staff ddatblygu ymhellach eu cynlluniau wrth gyflwyno Cwricwlwm i Gymru.

Caiff disgyblion gyfleoedd perthnasol i rannu syniadau fel rhan o’r gweithgareddau dysgu. Er enghraifft, mae staff yn darparu cyfleoedd i’r disgyblion ieuengaf gymhwyso eu medrau’n llwyddiannus mewn gweithgareddau sydd wedi eu hawgrymu ganddynt fel rhan o’r ddarpariaeth ‘Plant Prysur’. Mae’r disgyblion hynaf yn cael cyfleoedd gwerthfawr i drefnu ymweliadau addysgol sydd yn dwysàu eu dealltwriaeth ac ehangu eu gwybodaeth yn effeithiol. Mae’r cyfleoedd hyn yn cynnig gweithgareddau buddiol i ddisgyblion wneud dewisiadau bwriadus am eu dysgu.

Mae’r ddarpariaeth sydd yn cefnogi disgyblion i fod yn falch o’r iaith Gymraeg a’u treftadaeth yn greiddiol i lwyddiant yr ysgol, er enghraifft wrth i ddisgyblion ieuengaf ganu hwiangerddi a chaneuon Cymreig cyfarwydd gyda brwdfrydedd. Mae disgyblion hynaf yr ysgol yn cydweithio ag artist creadigol lleol i gyfansoddi geiriau modern i’r alaw Moliannwn gan berfformio’r cyfanwaith yn swynol. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion adeiladu ar y sylfaen gadarn hon wrth gynllunio gweithgareddau sy’n cynrychioli natur ddiwylliannol ac amrywiol Cymru a’r byd ehangach. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i drafod materion cyfoes ac i ehangu eu gorwelion yn fedrus.

Mae athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio’n hynod effeithiol wrth ddarparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu. Er enghraifft, mae staff yn darparu cyfleoedd i’r disgyblion ieuengaf gydweithio’n effeithiol i greu cuddfan er mwyn gwylio’r gwenoliaid sydd wedi nythu yn yr ysgol. Mae staff y disgyblion hynaf yn cynllunio gweithgareddau’n gelfydd i ymestyn dealltwriaeth a dwysàu gwybodaeth pob disgybl yn effeithiol.

Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion ac maent yn eu hannog i gyflawni hyd orau eu gallu yn y dosbarth tu mewn a thu allan. Mae staff y disgyblion ieuengaf yn manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo egwyddorion y cyfnod sylfaen yn hynod lwyddiannus, er enghraifft wrth greu ardal i gefnogi disgyblion wrth ymchwilio i drychfilod. Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf yn datblygu i fod

yn ddysgwyr creadigol, er enghraifft wrth iddynt ddatblygu eu medrau dylunio fel rhan o'r prosiect mentergarwch 'Prendigedig'. Mae staff yn hwyluso'r dysgu'n feistrolgar ac yn cefnogi disgyblion i gymryd perchnogaeth gynyddol dros eu dysgu, sydd yn ei dro yn eu hannog i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae staff yn herio disgyblion yn effeithiol ac yn eu holi'n grefftus. Mae athrawon yn ddoeth wrth ddarparu cefnogaeth amserol i gefnogi disgyblion. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd a chyflawniad disgyblion yn briodol. Trwy hyn, mae athrawon yn addasu'r ddarpariaeth er mwyn diwallu anghenion disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod y gweithgareddau dysgu yn caniatáu i ddisgyblion adnabod eu cryfderau a'u meysydd gwella eu hunain. Caiff rhieni wybodaeth berthnasol am gynnydd eu plant sydd yn eu galluogi i'w cefnogi gartref, er enghraifft wrth ddatblygu medrau llawysgrifen.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r modd y mae'r staff yn hyrwyddo diwylliant, iaith a threftadaeth Cymru yn gryfder sylweddol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae balchder y disgyblion yn eu Cymreictod yn hynod effeithiol. Mae'r ethos Cymraeg a Chymreig sy'n bodoli yn yr ysgol yn ymledu'n llwyddiannus i'r gymuned leol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi, parch, ac ymroddiad yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae ymddygiad y disgyblion yn arbennig. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae staff yn hyrwyddo ac yn cefnogi diwylliant cryf o ddiogelwch a lles yn yr ysgol ac ar-lein. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn ymfalchïo yn eu cymuned a'r cyfleoedd amrywiol y maent yn eu cael.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth gadarn ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r staff yn cydnabod pwysigrwydd ymyrraeth gynnar ac yn rhoi cefnogaeth gynhwysfawr i unigolion a grwpiau o ddisgyblion o oed ifanc. Mae'r athrawon a chymorthyddion dysgu yn cydweithio'n agos â'i gilydd i sicrhau bod disgyblion yn derbyn arweiniad pwrpasol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n glòs gydag amrywiaeth o asiantaethau allanol er mwyn darparu cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion, er enghraifft rhaglenni cefnogi darllen a mathemateg, i wella medrau llythrennedd a rhifedd grwpiau o ddisgyblion. O ganlyniad, mae gan bob disgybl sydd ag ADY gynllun addysg unigol effeithiol. Maent yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a thargedau priodol i symud disgyblion ymlaen yn eu dysgu yn llwyddiannus.

Mae'r staff yn cefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol a chymdeithasol yn fedrus ac yn darparu rhaglenni cymorth pwrpasol. Maent yn cynnal gweithdai arbenigol i rieni'r disgyblion sydd ag ADY. Mae hyn yn eu galluogi i gefnogi eu plant yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddathlu llwyddiannau disgyblion yn ystod gwasanaethau cydaddoli. Yn ogystal, darperir cyfleoedd i ddisgyblion  gymryd rhan drwy arwain yr addoli, er enghraifft wrth i ddisgyblion arwain gweddi i'w cyfoedion.

Mae'r staff yn annog y disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol sy'n barod i helpu eraill. Yn yr ysgol mae nifer o bwyllgorau gweithgar sydd yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae eu cyfraniad at waith yr ysgol a'r gymuned yn werthfawr iawn. Maent yn hybu llais y disgybl a'u hannog i gymryd cyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau doeth. Enghraifft nodedig o hyn yw gwaith y pwyllgor i sefydlu strategaeth 'Cyfaill' rhwng disgyblion yr ysgol. Mae'r strategaeth lwyddiannus hon yn cefnogi disgyblion ac yn eu hannog i ofalu am ei gilydd.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am arferion bwyta'n iach ac yn deall pwysigrwydd diet cytbwys. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn amryfal gystadlaethau a thwrnameintiau lleol. Caiff disgyblion gyfleoedd priodol i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, er enghraifft yn y clybiau pêl-droed a phêl-rwyd er mwyn datblygu eu medrau corfforol. Mae sesiynau cydbwysedd a ffitrwydd ar gwrs antur yr ysgol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r trefniadau effeithiol hyn yn ysgogi'r disgyblion i gadw'n heini. Mae'r ysgol yn hyrwyddo lles disgyblion yn fwriadus ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd meddwl yn ogystal â'u hiechyd corfforol. Enghraifft dda o hyn yw'r sesiynau meddwlgarwch dyddiol a gynhelir yn y dosbarthiadau.

Er mwyn cyfoethogi ei darpariaeth, mae gan yr ysgol bartneriaeth hynod effeithiol â rhieni a'r gymuned. Trwy gydweithio cadarn, mae'r ysgol yn hysbysu rhieni yn llwyddiannus am gynnydd eu plant. Mae'r staff yn trefnu gweithgareddau rheolaidd i godi ymwybyddiaeth rhieni am wahanol ffyrdd i gefnogi eu plant, er enghraifft drwy gynnal hyfforddiant ar strategaethau darllen i ddefnyddio gartref. O ganlyniad, mae hyn wedi hyrwyddo medrau darllen gyda rhieni a'u plant yn llwyddiannus.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn darparu cyfeiriad strategol clir a chadarn ar gyfer yr ysgol. Mae ganddo weledigaeth greadigol sydd wedi ei rhannu'n llwyddiannus gyda phartneriaid yr ysgol. Mae'r bartneriaeth glòs hon yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu'n unigolion iach a hyderus mewn cymuned hapus, ddiogel a chroesawgar. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o'i hun, y staff a'r disgyblion ac, o ganlyniad, mae ethos gofalgar, gweithgar a Chymreig yn treiddio trwy holl weithgareddau'r ysgol.

Un o nodweddion nodedig ei weledigaeth, sef 'gwreiddiau cryf, canghennau uchel', yw'r ffocws ar ddarparu ystod gyfoethog o weithgareddau go iawn sydd yn cefnogi disgyblion i ddatblygu'r medrau angenrheidiol ar gyfer swyddi'r dyfodol. Mae arweinwyr yn manteisio ar arbenigedd rhieni a'r gymuned ehangach drwy ymweld â'r ysgol i rannu eu doniau a'u profiadau gyda'r disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau adeiladu yn grefftus wrth wneud llwyfan berfformio yn y dosbarth tu allan. Mae gan staff berthynas rhagweithiol dda gyda'r rhieni sydd yn eu hannog i fod yn rhan allweddol o fywyd yr ysgol. Mae'r pennaeth yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol ac amserol gyda rhieni sydd yn sicrhau eu dealltwriaeth o holl weithgareddau'r ysgol.

Mae trefniadau hunanwerthuso arweinwyr yn effeithiol. Maent yn ystyried tystiolaeth uniongyrchol ynghyd â chyfraniadau staff wrth werthuso perfformiad yr ysgol. Defnyddir y wybodaeth o'r gweithgareddau monitro yn briodol i osod blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi adnabod bod angen

datblygu medrau corfforol disgyblion sydd wedi arwain yn barod at fuddsoddi mewn cwrs antur ar gae'r ysgol. At ei gilydd, mae'r blaenoriaethau yn canolbwyntio'n gadarn ar gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau. Yn ogystal, mae arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn effeithiol, er enghraifft wrth ymateb i ofynion y Ddeddf ADY.

Mae'r pennaeth yn hynod frwdfrydig wrth ddatblygu cyfleoedd i staff gydweithio o fewn a thu hwnt i'r ysgol, er enghraifft wrth sefydlu rhwydwaith werthfawr rhwng staff yr ysgol ac ysgolion lleol. Mae'r cydweithio pwrpasol hwn yn ddefnyddiol ar gyfer rhannu syniadau staff a chynllunio cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cyfoethogi eu profiadau dysgu. Enghraifft dda o hyn yw'r modd mae staff yn dod at ei gilydd i ddatblygu eu cynlluniau i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru ymhellach.

Mae medrau arwain staff yn datblygu'n gadarn sydd yn cyfrannu'n llwyddiannus at greu trefniadau arweinyddiaeth cryf i'r ysgol. Er enghraifft, mae athrawon yn manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol i gryfhau eu medrau arwain. Maent yn ymateb i flaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol yn fedrus, er enghraifft wrth iddynt arwain newidiadau i'r ddarpariaeth sydd yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau yn y dosbarth tu allan. Mae'r trefniant hwn o arweinyddiaeth ddosranedig yn sicrhau bod cynlluniau i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn datblygu'n berthnasol, ac yn darparu rheolaeth fuddiol i'r ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn ymroddgar a chefnogol i'r ysgol ac maent wedi canolbwyntio'n llwyddiannus ar ddatrys nifer o faterion pwysig. Maent wedi sicrhau bod gan yr ysgol arweinyddiaeth sefydlog a thîm o staff ymroddedig. Trwy gydweithio ag arweinwyr, a thrafod enghreifftiau o waith gyda'r disgyblion, mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw'r llywodraethwyr yn dwyn arweinwyr i gyfrif am safonau disgyblion yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, mae rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol yn gyfyngedig.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cynllunio gwariant yn ofalus. Maent yn sicrhau bod y gyllideb a'r grantiau i ddatblygu'r ddarpariaeth yn cael eu gwario'n ddarbodus. Mae'r gwariant yn cysylltu'n fwriadus â blaenoriaethau'r cynllun datblygu sydd yn cael ei fonitro'n briodol. Er enghraifft, mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd i gymhorthydd ddilyn hyfforddiant er mwyn cynnig rhaglen gymorth sydd yn cefnogi disgyblion bregus. Yn ogystal, mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn briodol wrth hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr yn cefnogi staff i ddatblygu'n broffesiynol trwy gynnig arlwy eang o hyfforddiant sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Er enghraifft, mae staff yn manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol i ddarparu gweithgareddau gwaith coed yn y Cwt Pren. Mae hyn yn hyrwyddo creadigrwydd mewn amgylchedd ddysgu gefnogol sydd yn magu brwdfrydedd disgyblion yn effeithiol.

Mae bron pob rhiant yn canmol arweinyddiaeth gadarn yr ysgol a dylanwad hynny ar ymroddiad ag arbenigedd holl staff yr ysgol. Mae meddylfryd gofalgar ac ethos teuluol i'r ysgol. Mae cyfathrebu effeithiol rhwng yr ysgol a'i rhanddeiliaid yn sicrhau bod bron pob rhiant yn chwarae'u rhan yn llwyddiannau'r ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/07/2022